14–16 oed

# Cwestiynau ffrwydrol: adeiledd a bondio

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

Education
Inspiring your teaching and learning

https://rsc.li/4tCRfwN

# Amcanion dysgu


1. Cofio'r hyn rydych wedi'i ddysgu'n flaenorol am fondio, adeiledd, priodweddau mater a newidiadau mewn cyflwr.

2. Datblygu techneg i fynd i'r afael â chwestiynau arholiad ateb estynedig, a gwella eich atebion.


# Enghraifft o gwestiwn hen bapur

Eglurwch pam mae clorin ($Cl_2$) yn nwy ar dymheredd ystafell, ond mae sodiwm clorid ($NaCl$) yn solid ar dymheredd ystafell.

**Clorin**




**Sodiwm clorid**




Dylech gynnwys disgrifiad o fondio ac adeiledd clorin a sodiwm clorid yn eich ateb.

**6 marc**


Enghraifft un

Eglurwch pam mae clorin ($Cl_2$) yn nwy ar dymheredd ystafell, ond mae sodiwm clorid ($NaCl$) yn solid ar dymheredd ystafell.

**Clorin**

$$Cl-Cl$$

**Sodiwm clorid**




Dylech gynnwys disgrifiad o fondio ac adeiledd clorin a sodiwm clorid yn eich ateb.

**6 marc**


Enghraifft un

Eglurwch pam mae clorin ($Cl_2$) yn nwy ar dymheredd ystafell, ond mae sodiwm clorid ($NaCl$) yn solid ar dymheredd ystafell.

**Clorin**

Bond cofalent

Grymoedd rhyngfoleciwlaidd gwan





Dim angen llawer o egni i drechu grymoedd

Ymdoddbwynt a berwbwynt isel

**Sodiwm clorid**

Bondiau ïonig



Ïon clorid ($Cl^-$) — Ïon negatif

Ïon sodiwm ($Na^+$) — Ïon positif

Yn cael eu dal at ei gilydd gan rymoedd electrostatig

Cryf

Angen llawer o egni i dorri bondiau

Ymdoddbwynt a berwbwynt uchel

Dylech gynnwys disgrifiad o fondio ac adeiledd clorin a sodiwm clorid yn eich ateb.

**6 marc**

Disgrifiad

Esboniad

# Tasg

- Defnyddiwch eich cwestiwn arholiad ffrwydrol i ysgrifennu ateb i'r cwestiwn. Rhaid i chi ddefnyddio pob anodiad.
- Ticiwch bob pwynt wrth i chi ei gynnwys yn eich ateb.

# Canllawiau marcio



| Lefel | Meini Prawf |
|---|---|
| 0 marc | Dim cynnwys perthnasol |
| Lefel 1 (1-2 marc) | Gellir rhoi hyd at ddau farc ar gyfer unrhyw un o'r datganiadau disgrifio isod. |
| Lefel 3 (3-4 marc) | Rhaid cael naill ai ddatganiad disgrifio ac esboniad am un sylwedd **neu** ddatganiadau disgrifio am y ddau sylwedd. |
| Lefel 3 (5-6 marc) | Rhaid cynnwys disgrifiadau ac esboniadau o'r **ddau** sylwedd.<br>Sylwer nad oes rhaid cynnwys pob pwynt er mwyn cael marciau llawn. Mae'r pwyntiau allweddol mewn print trwm. |

## Enghreifftiau o bwyntiau cemeg yn yr ateb

### Clorin:

- **Adeiledd:** mae moleciwlau **syml** yn cael eu ffurfio.
- Bondio: bondiau cofalent rhwng atomau.

*Esboniad pam ei fod yn nwy*

- Atyniad gwan rhwng moleciwlau
- **Ychydig o egni** mae'n ei gymryd i drechu **grymoedd** rhyngfoleciwlaidd **gwan**.
- Mae berwbwynt clorin yn isel.

### Sodiwm clorid:

- Adeiledd: enfawr – bondiau cryf i bob cyfeiriad sy'n ffurfio dellten enfawr.
- **Bondio:** bondiau **ïonig** neu atyniad electrostatig rhwng ïonau â gwefr ddirgroes.

*Esboniad pam ei fod yn solid*

- **Bondiau ïonig cryf** rhwng yr atomau.
- **Angen llawer o egni i dorri**'r bondiau.
- Mae ymdoddbwynt sodiwm clorid yn uchel.


# Cwestiwn ar ffurf arholiad

Eglurwch pam mae carbon deuocsid ($CO_2$) yn nwy ar dymheredd ystafell, ond mae diemwnt yn solid ar dymheredd ystafell.

**Carbon deuocsid**




**Diemwnt**



Dylech gynnwys disgrifiad o fondio ac adeiledd carbon deuocsid a diemwnt yn eich ateb.

**6 marc**

1. Mae gennych dri munud i weithio ar eich pen eich hun yn dawel i ffrwydro'r cwestiwn arholiad.
2. Yna bydd gennych ddau funud i drafod mewn parau cyn ateb y cwestiwn.


Enghraifft dau

# Cwestiynau ategol

Enghraifft dau




1. Ai metel neu anfetel yw carbon?
2. Ai metel neu anfetel yw ocsigen?
3. Pa fath o fondio sydd gan garbon deuocsid?
4. A yw'r adeiledd yn syml (moleciwlaidd) neu'n enfawr?
5. A yw'r grymoedd rhwng y moleciwlau yn gryf neu'n wan?
6. A yw hyn yn golygu bod angen ychydig neu lawer o egni i drechu'r grymoedd?
7. Felly, a oes gan garbon deuocsid ymdoddbwynt a berwbwynt isel neu uchel?



1. Pa elfen mae diemwnt yn ei chynnwys?
2. Ai metel neu anfetel yw'r elfen hon?
3. Pa fath o fondio sydd gan ddiemwnt?
4. A yw'r adeiledd yn syml (moleciwlaidd) neu'n enfawr?
5. A yw'r bondiau rhwng yr atomau yn gryf neu'n wan?
6. A yw hyn yn golygu bod angen ychydig neu lawer o egni i'w trechu?
7. Felly, a oes gan ddiemwnt ymdoddbwynt a berwbwynt isel neu uchel?

# Canllawiau marcio

| Lefel | Meini Prawf |
|---|---|
| 0 marc | Dim cynnwys perthnasol |
| Lefel 1 (1-2 marc) | Gellir rhoi hyd at ddau farc ar gyfer unrhyw un o'r datganiadau disgrifio isod. |
| Lefel 3 (3-4 marc) | Rhaid cael naill ai ddatganiad disgrifio ac esboniad am un sylwedd **neu** ddatganiadau disgrifio am y ddau sylwedd. |
| Lefel 3 (5-6 marc) | Rhaid cynnwys disgrifiadau ac esboniadau o'r **ddau** sylwedd.<br>Sylwer nad oes rhaid cynnwys pob pwynt er mwyn cael marciau llawn. Mae'r pwyntiau allweddol mewn print trwm. |

Enghraifft dau

## Enghreifftiau o bwyntiau cemeg yn yr ateb

### Carbon deuocsid:

- **Adeiledd:** mae moleciwlau **syml** yn cael eu ffurfio.
- Bondio: bondiau cofalent rhwng atomau.

*Esboniad pam ei fod yn nwy*

- Atyniad gwan rhwng moleciwlau.
- **Ychydig o egni** mae'n ei gymryd i drechu **grymoedd** rhyngfoleciwlaidd **gwan**.
- Mae berwbwynt carbon deuocsid yn isel.

### Diemwnt:

- **Adeiledd:** moleciwl cofalent **enfawr** yw diemwnt.
- Bondio: **bondiau cofalent** rhwng atomau carbon.

*Esboniad pam ei fod yn solid*

- Mae'r **bondiau'n gryf.**
- Mae pob atom carbon yn ffurfio bondiau ag atomau carbon eraill.
- **Angen llawer o egni i dorri** bondiau.
- Mae ymdoddbwynt diemwnt yn uchel.